OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 276 (Cy. 52)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Cofnodion Treth Gwarediadau Tirlenwi) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Chwefror 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Mawrth 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 39A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Cofnodion Treth Gwarediadau Tirlenwi) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "anfoneb dirlenwi" ("*landfill invoice*") yr ystyr a roddir yn adran 41(8) o DTGT(**2**);

mae i "gwarediad trethadwy" ("*taxable disposal*") yr ystyr a roddir yn adran 3 o DTGT;

mae i "gweithrediadau trethadwy" ("*taxable operations*") yr ystyr a roddir yn adran 34(2) o DTGT;

ystyr "nodyn trosglwyddo" ("*transfer note*") yw disgrifiad ysgrifenedig o ddeunydd os yw'n ofynnol gan adran 34(1)(c)(ii) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**3**) neu, pan na fo disgrifiad o'r fath yn ofynnol, dystiolaeth arall o'r deunydd sy'n cael ei gyflwyno;

mae i "safle tirlenwi awdurdodedig" ("*authorised landfill site*") yr ystyr a roddir yn adran 5(1) o DTGT.

(**1**) 2016 dccc 6. Mewnosodwyd adran 39A gan baragraff 8 o Atodlen 23 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (dccc 1).

(**2**) Mae adran 192(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn diffinio DTGT fel Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (dccc 3).

(**3**) 1990 p. 43.

**Cofnodion mewn cysylltiad â Threth Gwarediadau Tirlenwi**

**3.** At ddibenion adran 38(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**4**) mae'r cofnodion y mae'n rhaid i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy eu cadw a'u storio'n ddiogel yn cynnwys y canlynol—

(a) cofnodion busnes a chyfrifo'r person;

(b) nodiadau trosglwyddo ac unrhyw gofnodion gwreiddiol neu gopïau o gofnodion eraill mewn perthynas â deunydd sy'n cael ei gludo i'r safle tirlenwi awdurdodedig neu ei symud oddi yno;

(c) pob anfoneb (gan gynnwys anfonebau tirlenwi) a dogfen debyg a ddyroddir i'r person a chopïau o anfonebau a dogfennau tebyg o'r fath a ddyroddir gan y person;

(d) pob nodyn credyd a debyd neu ddogfen arall a gafwyd gan y person sy'n dangos tystiolaeth o gynnydd neu ostyngiad yng nghyfanswm unrhyw gydnabyddiaeth ar gyfer gwarediad trethadwy, a chopïau o nodiadau neu ddogfennau eraill o'r fath a ddyroddir gan y person.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

27 Chwefror 2018

(**4**) Diwygiwyd adran 38 gan baragraff 5 o Atodlen 23 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y cofnodion y mae rhaid i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi eu storio'n ddiogel o dan adran 38 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.